

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol  
Adroddiad ymchwil 116

Adolygu nodau ac

effeithiolrwydd

Dyletswydd

Cydraddoldeb y Sector  
Cyhoeddus (PSED) ym  
Mhrydain

Crynodeb gweithredol

Mehul Kotecha, Jonah Bury, Jane Lakey a Matt Barnard  
NatCen Social Research

# Crynodeb gweithredol

## Cyflwyniad

---

Prif nod yr ymchwil yma oedd deall sut y mae awdurdodau cyhoeddus yn gosod ac yn gweithredu amcanion a deilliannau cydraddoldeb yn Lloegr, yr Alban a Chymru fel rhan o'u dyletswyddau penodol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED). Roedd hefyd yn adolygu'r dystiolaeth ryngwladol er mwyn dod o hyd i ffyrdd effeithiol o ddrafftio, monitro a gorfodi dyletswyddau trwy ddeddfwriaeth y mae modd ei chymhwyso i'r PSED.

Mae'r PSED, a ddeddfwyd yn adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 ac a fu mewn grym ers Ebrill 2011, yn cynnwys dyletswydd gyffredinol sy'n gofyn bod awdurdodau cyhoeddus yn rhoi'r sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael â gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer nodweddion gwarchoddedig hil, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, oed, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, a beichiogrwydd a mamolaeth, yn ogystal ag annog perthynas well rhwng pobl sydd yn rhannu nodwedd warchoddedig a'r sawl nad ydyw.

Crëwyd y dyletswyddau penodol trwy is-ddeddfwriaeth a'u bwriad yw helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn fwy effeithiol. Mae dyletswyddau penodol yn gofyn i awdurdodau cyhoeddus yn Lloegr, yr Alban a Chymru gyhoeddi gwybodaeth sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r PSED a gosod amcanion cydraddoldeb (Cymru a Lloegr) neu ddeilliannau cydraddoldeb (yr Alban) ar gyfer eu sefydliad o leiaf bob pedair blynedd. Mae gan Lywodraethau'r Alban a Chymru setiau mwy helaeth o ddyletswyddau penodol ar waith, ac mae gofyn iddynt roi adroddiad ar eu cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion/y deilliannau y maent wedi'u gosod.

Roedd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar y broses o lunio penderfyniadau ar gyfer gosod amcanion/deilliannau cydraddoldeb ar draws pedwar sector: iechyd, addysg bellach ac uwch, awdurdodau lleol a'r heddlu. Fe wnaethom ddefnyddio tri o wahanol ddulliau o gasglu data:

- arolwg ar y we o'r amcanion/y deilliannau a oedd wedi'u gosod a'u cyhoeddi gan 383 o awdurdodau cyhoeddus ar eu gwefannau
- cyfweiliadau ffôn dilynol gyda 39 o awdurdodau cyhoeddus i ddarganfod y rhesymwaith a'r prosesau y tu ôl i'r amcanion/deilliannau a gyhoeddwyd ganddynt, ac
- arolwg cyflym wrth y ddesg o'r dystiolaeth, a oedd yn cwmpasu 38 o ffynonellau (a 36 o'r rheiny'n berthnasol), ynglŷn â sut y mae dyletswyddau positif yn cael eu drafftio, eu monitro a'u gorfodi trwy ddeddfwriaeth, a'r gwersi y gellir eu cymhwyso i'r PSED.

## Prif ddarganfyddiadau

---

Archwiliodd yr ymchwil y cydymffurfiad â'r dyletswyddau penodol, dewis amcanion neu ddeilliannau penodol, y broses a ddefnyddiwyd i'w datblygu, a'r ffyrdd y cawsant eu gweithredu. Roedd hefyd yn cwmpasu datblygiad a gweithrediad dyletswyddau positif.

## Cydymffurfiad â'r dyletswyddau penodol

---

Cafodd yr arolwg ar y we bod gan 91% o'r 383 awdurdod cyhoeddus yn y sampl amcanion/deilliannau yr oedd modd i'r cyhoedd wybod amdanynt, ac roedd hyn yn agwedd allweddol o gydymffurfiad PSED. Sylwodd y rhai a gafodd eu cyfweld hefyd:

- Os mai'r PSED oedd yr unig fodd, neu'r brif fodd, o ysgogi cydymffurfiad, roedd hyn yn deillio o 'rym' y ddeddfwriaeth ei hun, neu o'r angen i osgoi niwed posibl i enw da'r sefydliad yn sgil peidio â chydymffurfio. Roedd y canfyddiad y gallai'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fonitro a gorfodi cydymffurfiad hefyd yn sbardun pwysig yn hyn o beth.
- Os oedd y PSED yn chwarae rhan lai canolog wrth annog cydymffurfiad, roedd hyn yn ganlyniad i yrwyr sectorol a sefydliadol eraill.

## Gosod amcanion neu ddeilliannau

---

Mae'r adroddiad yn archwilio sut y bydd awdurdodau'n dewis ac yn blaenoriaethu amcanion penodol / deilliannau. I wneud hyn roedd yn rhaid i'r awdurdodau gydbwysu'r angen i ateb y prif heriau o ran cydraddoldeb ar y naill law ag

ystyriaethau o'r hyn yr oedd dichon iddynt gyflawni ar y llaw arall. Lluniwyd yr ystyriaethau hyn, yn eu tro, gan ffactorau sy'n gysylltiedig â'r cyd-destun cenedlaethol (soniodd 41% o'r sampl yn yr arolwg ar y we y dylid ystyried blaenoriaethau cenedlaethol) a'r cyd-destun sectorol/lleol (soniodd 60% o'r sampl yn yr arolwg ar y we am hyn)

Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau sector cyhoeddus yr oeddem wedi'u harchwilio wedi cyhoeddi eu hamcanion/deilliannau cydraddoldeb. Awdurdodau'r Alban oedd ar y blaen yn hyn o beth. Wrth asesu'r amcanion/y deilliannau yr oedd yr awdurdodau wedi'u gosod, fe wnaethom gymharu'r darganfyddiadau yn y tri sector arall â'r darganfyddiadau yn yr awdurdodau iechedd.

O'u cymharu ag awdurdodau iechedd:

- Roedd yr awdurdodau mewn sectorau eraill yn llai tebygol o sôn am wahaniaethu galwedigaethol.
- Roedd awdurdodau lleol yn fwy tebygol o grybwyll: oed a rhyw; bylchau cyflog ac arferion cyflogaeth; a grwpiau eraill dan anfantais nad yw'r nodweddion gwarchoddedig yn eu cynnwys.
- Roedd awdurdodau'r heddlu yn llai tebygol o grybwyll oed a chyfeiriadedd rhywiol, ond yn fwy tebygol o grybwyll arferion cyflogaeth a dyrchafiad ac absenoldeb salwch/trosiant staff.
- Roedd awdurdodau addysg yn fwy tebygol o grybwyll rhyw, ailbennu rhywedd/trawsrywedd, a chrefydd neu gred, yn ogystal â bylchau cyflog a dyrchafiad.

O'u cymharu ag awdurdodau yn Lloegr, roedd awdurdodau yng Nghymru yn fwy tebygol o:

- Grybwyll pob un o'r nodweddion gwarchoddedig a grwpiau difreintiedig eraill
- Dangos bod eu yn seiliedig ar flaenoriaethau cenedlaethol, tystiolaeth feintiol ac ymgynghoriad ansoddol.
- Rhoi gwybod am gynnydd yn erbyn eu hamcanion/deilliannau
- Darparu naratif eglur ynghylch p'un a oeddent wedi cyflawni eu hamcanion/deilliannau ai peidio

## Datblygu amcanion a deilliannau

---

Yn fras, roedd awdurdodau wedi datblygu dau fath o amcan/deiliant. Roedd amcanion/deilliannau sylfaenol yn canolbwyntio ar adeiladu gallu'r awdurdod i fynd i'r

afael â heriau cydraddoldeb trwy ddatblygu ei wybodaeth a'i seilwaith. Mewn cyferbyniad â hyn, roedd amcanion/deilliannau uniongyrchol yn canolbwyntio ar fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r heriau a nodwyd i staff, defnyddwyr a'r gymuned ehangach. Roedd cymysgedd o amcanion/deilliannau sylfaenol ac uniongyrchol yn batrwm a welwyd dro ar ôl tro.

Wrth ddatblygu'r amcanion hyn, defnyddiodd awdurdodau ddau ddull, yn fras, o drin y mater:

- Dulliau 'o'r brig i lawr' lle roedd uwch arweinyddion cydraddoldebau'n cynhyrchu amcanion/deilliannau heb ymgynghori â rhanddeiliaid. Mewn rhai achosion, defnyddient amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys gwybodaeth ar lefel y sefydliad a'r maes, er mwyn cael synnwyr o'r heriau sy'n berthnasol o ran cydraddoldeb. Mewn achosion eraill, roeddent yn dibynnu'n helaeth ar eu gwybodaeth ddealedig o'r problemau.
- Dulliau 'o'r gwaelod i fyny', lle roedd yr amcanion/deilliannau'n cael eu cyd-gynhyrchu gyda rhanddeiliaid (staff, defnyddwyr gwasanaeth a/neu'r gymuned ehangach).

## Gweithredu amcanion a deilliannau

---

Er bod y cyfweiliadau'n canolbwyntio ar osod amcanion/deilliannau, roedd y rhai a gafodd eu cyfweild hefyd yn trafod pwysigrwydd atebolrwydd, cydlyniant a rheoli adnoddau'n effeithiol.

### Atebolrwydd

Nodwyd dau brif dull o ymdrin â chyflenwi:

- Cyflenwi 'datganoledig', lle dosbarthwyd y cyfrifoldeb am weithredu amcanion/deilliannau ar draws ymhlith yr holl staff a'r adrannau. Defnyddiwyd y dull yma'n bennaf mewn sefydliadau mawr gydag amcanion/deilliannau cymhleth.
- Cyflenwi mwy canoledig, lle roedd gofyn i un person /neu grwp (yr arweinydd/grwp cydraddoldeb fel arfer) gyflenwi'r amcanion/deilliannau. Defnyddiwyd y dull yma'n bennaf gan sefydliadau llai oedd ag amcanion/deilliannau symlach ac/neu nad oedd ganddynt y gefnogaeth angenrheidiol neu'r strwythurau sefydliadol ar waith

## Cydlyniant

Adroddwyd am bedwar mecanwaith cydlynu

- arweinyddion cydraddoldeb, a gynorthwyodd i ysgogi, uwchsgilio a llunio'r broses weithredu
- ymrwymiad y sefydliad, yn enwedig o du'r uwch reolwyr
- fframweithiau sectorol, a gynorthwyodd i sicrhau ymrwymiad y sefydliad, a
- defnyddio offer fel asesiadau effaith cydraddoldeb a chynlluniau cydraddoldeb

## Adnoddau

Roedd cyfyngiadau ar adnoddau, gan gynnwys diffyg arian ac amser staff i gyflenwi amcanion/deilliannau, yn broblem. Gweithiodd rhai awdurdodau ar y cyd i ddatblygu amcanion/deilliannau er mwyn rhannu cyllid, arbenigedd a chyfrifoldeb yn y broses gyflenwi

## Datblygu a gweithredu dyletswyddau positif

---

Nododd yr arolwg tystiolaeth gyflym ddulliau y gellid eu defnyddio wrth ddrafftio dyletswyddau positif, gan ganolbwyntio ar egluro'r prif egwyddorion a'r ystyriaethau sy'n darparu gwybodaeth ar gyfer arfer da. Roedd hefyd yn cwmpasu cydymffurfriad â'r dyletswyddau penodol

Nodwyd tri phwynt arfer da i'w drafftio, sef y dylai'r dyletswyddau gael eu drafftio ar y cyd gan amrywiaeth o randdeiliaid; dylai'r ddyletswydd geisio ymgorffori cydraddoldeb yn y sefydliadau; a dylai'r ddyletswydd gydbwyso hyblygrwydd ac amodau. Roedd monitro ar ei fwyaf effeithiol pan wnaed hynny ar y cyd, ac roedd gorfodi'n gweithio'n dda pan roedd cysylltiad rhwng mecanweithiau cyfreithiol ffurfiol ar y naill law, a hunanreoleiddio'r sefydliad ar y llall.

## Goblygiadau o ran arfer da

---

Nododd yr ymchwil nifer o oblygiadau o ran arfer da a allai helpu awdurdodau i sefydlu a gweithredu'u hamcanion/eu deilliannau, neu ddrafftio, monitro neu orfodi dyletswyddau positif.

## Sefydlu a gweithredu amcanion a deilliannau

Roedd dulliau arfer da allweddol i awdurdodau'n cynnwys:

- bod â darlun eglur a chywir o'r heriau cydraddoldeb allweddol sy'n wynebu'u sector a'u sefydliad.
- cydgynhyrchu amcanion/deilliannau gyda staff a cheisio deall problemau o safbwynt defnyddwyr y gwasanaeth a/neu'r gymuned ehangach trwy ymgynghori a thystiolaeth.
- bod ag arweinyddion cydraddoldeb (naill ai unigolion neu grwpiau) sy'n atebol am amcanion/deilliannau ac am gydlynu'r gwaith o'u sefydlu a'u gweithredu, a
- datblygu dulliau creadigol o fynd i'r afael â chyfyngiadau o ran adnoddau ariannol a staff

### **Datblygu a gweithredu dyletswyddau positif**

Mae dulliau arfer da allweddol i awdurdodau'n cynnwys:

- ymgynghori a chydweithredu â rhanddeiliaid perthnasol
- bod â chorff cydraddoldeb dynodedig gyda'r awdurdod cyfreithiol a'r adnoddau ariannol a'r staff priodol i fonitro cydymffurfriad
- bod ag unigolyn sy'n atebol am yr amcanion/y deilliannau ac am gydlynu'r gwaith o'u gosod a'u cyflenwi, a
- sicrhau bod y dyletswyddau'n ddigon clir a manwl i roi eglurder dehongliad a gweithrediad, ond hefyd yn ddigon hyblyg i'w caniatáu i ddod o hyd i'r prif problemau a mynd i'r afael â hwy.

# Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael ar ein gwefan: [www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com)

Am gyngor, gwybodaeth neu gyfarwyddyd ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb, gwasanaeth annibynnol, rhad ac am ddim. Gwefan [www.equalityadvisoryservice.com](http://www.equalityadvisoryservice.com)

Ffôn 0808 800 0082

Ffôn testun 0808 800 0084

Oriau 09:00 tan 19:00 (Llun i Wener) 10:00 tan 14:00 (Sadwrn)

Post FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau a sylwadau parthed y cyhoeddiad hwn at: [correspondence@equalityhumanrights.com](mailto:correspondence@equalityhumanrights.com).

Rydym yn croesawu eich adborth.

## **Fformatau amgen**

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael fel ffeil Microsoft Word o [www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com). Am wybodaeth ar gael mynediad at gyhoeddiadau'r Comisiwn ar ffurf amgen, cysylltwch â: [correspondence@equalityhumanrights.com](mailto:correspondence@equalityhumanrights.com)

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Awst 2018



Gallwch chi lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn oddi wrth

[www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com)

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Awst 2018



**Equality and  
Human Rights**  
Commission